

Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol

Rhagfyr 2018

Cyn Adneuo Ddrafft Strategaeth a Ffefrir
Aseidiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb



Cyngor Sir Caerfyrddin

Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau camwahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydaddoldeb hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o ddylunio polisiau a chyflwyno gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau yna gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol gan awdurdodau lleol i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu camwahaniaethu a hybu cydraddoldeb ynghylch hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd y sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod

awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o Weithredu Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn ystyried effaith bosibl ei bolisiau a'i arferion arfaethedig ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen ategu pob cynnig gyda'r Asesiad o Effaith amgaeedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol yna mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Adrodd ar asesiadau


Os yw'n amlwg o'r asesiad bod yr effaith debygol ar allu'r awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, yna bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiad Cychwynnol ac Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldebau

Mae'r asesiad cychwynnol (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisïau, swyddogaethau, gweithdrefnau a phenderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig, gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau, ar lefel gychwynnol o leiaf, a chwblhau asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldebau lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2); mae'n rhaid atodi'r asesiad gyda'r papurau cefndir a'r adroddiadau ar gyfer y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Aseiad Cychwynol o'r Effaith ar Gydraddoldebau

Atodiad 1

<p>Adran: Cynllunio</p>	<p>Wedi'i gwblhau gan (arweinydd): Ian R Llewelyn</p>	<p>Dyddiad yr aseiad cychwynol: 14 Tachwedd 2018 Dyddiadau adolygu:</p>
<p>Y maes a asesir: (h.y. enw'r <i>polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad ariannol</i>)</p>	<p>Y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018-2033 (Drafft)</p>	
<p>Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a ydy'n un newydd?</p>	<p>Polisi newydd</p>	
<p>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddarparu gwybodaeth wrth lunio'r aseiad a'r polisi? (rhestr yn unig)</p>		
<p>Wrth baratoi'r strategaeth hon mae ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i ystod o ofynion a ffactorau sy'n dylanwadu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deddfwriaeth - gan gynnwys Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Chyfarwyddebau Ewropeaidd; • Polisi Cynllunio Cenedlaethol; • Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2015; • Cynllun ac Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin - "Y Sir Gâr a Garem"; • Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin - Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018-2023; • Tystiolaeth a gesglir - gan gynnwys amcanestyniadau o ran poblogaeth ac aelwydydd; • Adborth ac ymgysylltiad. 		

Mae'r gwaith o baratoi Fersiwn Drafft y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir wedi dechrau yn sgil ymagwedd gadarn o ran casglu tystiolaeth ac ymgysylltu. Mae Panel Ymgynghorol y CDLI wedi cynnal saith cyfarfod ers Tachwedd 2017. Mae'r Panel yn cynnwys Aelodau Etholedig a'i brif ddiben yw cymryd perchenogaeth wleidyddol ar y CDLI Diwygiedig. Mae pwyslais cryf wedi bod ar ymgysylltu a chreu consensws. Mae'r canlynol wedi'u cynnal ers Ionawr 2018:

- 2 gyfarfod Fforwm Rhanddeiliad Allweddol y CDLI;
- Gweithdy/seminar y CDLI ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned;
- 2 gyfarfod y Fforwm Datblygwyr a
- Nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau gyda grwpiau gwleidyddol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein i gefnogi a llywio'r broses o nodi materion, gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, ac mae ymgynghoriad wedi'i gynnal ynghylch Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad a phwy fydd yn cael budd ohonynt.

O dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio CDLI mabwysiedig a'i roi ar waith. Llywodraethir y gwaith o lunio'r CDLI a'i gynnwys gan ddeddfwriaeth a rheoliadau gweithdrefnol. Mabwysiadwyd y CDLI presennol ym mis Rhagfyr 2014, ond penderfynodd y Cyngor ym mis Ionawr 2018 i ddechrau gwaith ar CDLI Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2018-2033.

Ar ôl cael ei fabwysiadu, y CDLI Diwygiedig fydd y cynllun defnydd tir ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal honno

sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac felly bydd penderfyniadau'n cael eu seilio ar ei gynnwys, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae Fersiwn Drafft y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ar gyfer y CDLI Diwygiedig (y Strategaeth) yn gam cyntaf pwysig o'r broses o wneud Cynlluniau.

Mae'r Strategaeth hon yn cynnwys nifer o elfennau allweddol, dyma'r rhai nodedig:

- Materion Allweddol y mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy;
- Gweledigaeth ynghylch sut y bydd Sir Gaerfyrddin yn edrych 2033;
- Amcanion Strategol i fynd i'r afael â'r materion a gwireddu'r Weledigaeth;
- Strategaeth Dwf - faint o dai a swyddi sydd eu hangen yn ystod cyfnod y cynllun?
- Strategaeth Ofodol - ble fydd y tai a'r swyddi yn ystod cyfnod y cynllun?
- Polisiâu Strategol

Mae'r materion allweddol yn cael eu grwpio o dan y nodau llesiant cenedlaethol, sy'n golygu eu bod yn cael eu fframio yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn sicrhau bod buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu gwreiddio yn y broses o wneud Cynlluniau. Mae'r materion yn pwysleisio rhai o'r heriau nodweddiadol hynny i'r Sir, a cheir rhagor o wybodaeth ym Mhapur Pwnc y Materion, Gweledigaeth ac Amcanion.

Mae'r weledigaeth yn cynnwys y weledigaeth a nodir yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor "Symud

Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin - y 5 mlynedd nesaf - 2018-2023". Er nad oes gweledigaeth i fanteisio ar Gynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin, mae gweledigaeth y CDLI Diwygiedig yn adlewyrchu ei bedwar amcan llesiant, sef (1) Arferion Iach (2) Ymyrraeth Gynnar (3) Cysylltiadau Cryf a (4) Phobl a Lleoedd Ffyniannus. Mae ymagwedd "Un Sir Gâr" yn cydnabod yr angen i gydbwyso gofynion a buddiannau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd ac yn darparu cyfle ar gyfer consensws a pherchenogaeth a rennir ar y CDLI Diwygiedig.

Cafodd amcanion strategol y CDLI Mabwysiedig eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer nodi'r amcanion strategol ar gyfer y CDLI Diwygiedig. Mae amcanion llesiant Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin wedi cael eu defnyddio i grwpio Amcanion Strategol y CDLI Diwygiedig. Mae hyn yn sicrhau bod dehongliad lleol o lesiant yn cael ei blethu yn yr amcanion strategol a strategaeth y Cynllun o'r dechrau.

Mae amcanion strategol y CDLI Diwygiedig yn ddigon uchelgeisiol ond mae modd hefyd eu cyflawni yng nghyd-destun cynllunio gofodol. Maent wedi'u seilio ar faterion allweddol y Cynllun ac yn ymateb iddynt, ac maent yn darparu plattform ar gyfer gwireddu'r weledigaeth. Er mai cynllun defnydd tir/gofodol yw hwn, mae llawer o amcanion y Strategaeth yn berthnasol yng nghyd-destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. O bwys arbennig y mae'r canlynol:

- AS2 Cynorthwyo i **ehangu a hyrwyddo cyfleoedd llesiant** trwy fynediad i gyfleusterau cymunedol a hamdden yn ogystal â chefn gwlad;
- AS3 Helpu i ehangu a hyrwyddo **cyfleoedd am addysg a hyfforddiant sgiliau i bawb**;

- AS4 **Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal drwy hyrwyddo mynediad** i wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith amrywiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal â chanol trefi bywiog;
- AS10 Darparu cymysgedd priodol o dai o ansawdd ledled y Sir, **yn seiliedig ar egwyddorion datblygu economaidd-gymdeithasol cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal.**
- AS11 Helpu i warchod, gwella a hyrwyddo'r **Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r Sir ynghyd â'i hasedau a'i gwead cymdeithasol.**

Mae'r Strategaeth yn ceisio darparu 9,887 o gartrefi ledled y Sir erbyn 2033. Mae hyn yn cyfateb â thraean yn llai na gofynion tai presennol y CDLI, sef 15,197, ac mae'n darparu cyfle ar gyfer o leiaf 5,295 o swyddi. Yng nghyd-destun cydraddoldeb, dylid nodi y byddai hyn yn cefnogi dyheadau'r Cyngor o ran darparu tai fforddiadwy ledled y Sir.

Mae'r opsiwn twf a ffefrir wedi dod i'r golwg yn sgil ystyried yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd, o ganlyniad i ymgysylltu cyn-adneuo, a'r angen i gael canlyniad cytbwys i gyflawni'r strategaethau a'r cynlluniau megis y canlynol, ond nid y canlynol yn unig:

- Llywodraeth Cymru - Polisi Cynllunio Cymru;
- Cynllun Adfywio Strategol y Cyngor 2015 – 2030 – Trawsnewidiadau;
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe;

	<ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018 – 2023; • Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem 2018-2033; • Amcanion Llesiant y Cyngor; • Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy y Cyngor; ac • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a • Cynllun y Cyngor: Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf. <p>Mae Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 yn cydnabod yr amrywiaeth a geir yn y Sir a'r angen i adlewyrchu hyn yn ei ymagwedd strategol. Mae'r Strategaeth Ofodol yn nodi hierarchaeth aneddiadau ond yn ei gosod o fewn fframwaith aneddiadau sydd wedi'i grwpio o dan chwe chlwstwr. Bydd y clystyrau hyn a'r dosbarthiad twf yn canolbwyntio ar egwyddorion cynaliadwy ond byddant hefyd yn cydnabod rôl, swyddogaeth a chyfraniad perthnasol yr aneddiadau o fewn clystyrau penodol, wrth gydnabod, diogelu a gwella'r agweddau a'r amgylcheddau gwerthfawr hynny. Mae'r Strategaeth newydd yn ceisio sicrhau twf cytbwys sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion ein cymunedau ac yn cyflawni amcanion strategol ac adfywio'r Cyngor a'r rhanbarth.</p>		
<p>Mae'n ofynnol fod y Cyngor yn rhoi "sylw dyledus" i'r canlynol yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:-</p>	<p>2. Beth fydd yr effaith ar bob grŵp/nodwedd gwarchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd?</p> <p>Nodwch uchel (U) canolig (C), isel (I),</p>	<p>3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob un o'r grwpiau/nodweddion gwarchoddedig?</p>	<p>4. Os oes effaith negyddol anghymesur pa ffactorau lliniarol ydych chi wedi'u hystyried?</p>

<p>(1) dileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;</p> <p>(2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a</p> <p>(3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau</p> <p>(gweler y canllawiau)</p>		<p>dim effaith (D) ar gyfer pob un.</p>	<p>Risgiau</p>	<p>Effeithiau cadarnhaol</p>	
<p>Nodweddion gwarchoddedig</p>	<p>Oed</p>	<p>H</p>	<p>Mae'r Strategaeth yn methu â chydabod proffil oedran y Sir. Nodwyd yn y materion allweddol fod gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio.</p>	<p>Mae'r Strategaeth yn ceisio adfer cydbwysedd ym mhroffil demograffig y Sir. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd bresennol o allfudo ymhlith grwpiau oedran iau a dibyniaeth ar fewnfudo fel yr ysgogwr ar gyfer newid yn y boblogaeth. Mae'r Strategaeth, wrth geisio adfer cydbwysedd yn y proffil oedran, yn darparu cyfleoedd ar gyfer amgylchedd gwaith a byw da i bawb, gan greu cymunedau ffyniannus a deniadol. O ran darparu cartrefi newydd, mae pwyslais ar gymysgedd o fathau o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n canolbwyntio ar angen y gymuned.</p>	

Anabledd	H	Mae'r Strategaeth yn cyfeirio datblygiad at leoliadau nad oes modd eu cyrraedd.	Mae'r Strategaeth yn ceisio cyfeirio datblygiad at leoliadau cynaliadwy y gellir eu cyrraedd drwy ddefnyddio ystod o ffyrdd o deithio gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Strategaeth yn rhoi pwyslais cryf ar gyfraddoldeb. Cyfeiriwyd yn benodol at Amcanion Strategol 4 a 10.	
Ailbennu rhywedd	L		Bydd y Strategaeth yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell.	
Hil	H	Mae'r Strategaeth yn methu â chydabod anghenion cymunedau penodol.	Bydd y Strategaeth yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell. Cyfeiriwyd at anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Gaerfyrddin. Yn hyn o beth mae'r Strategaeth yn gwneud darpariaethau penodol ar gyfer eu hanghenion drwy Bolisi Strategol 9.	

Crefydd neu Gred	L		Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith defnydd tir sy'n ymateb i'r materion a nodir drwy ei gweledigaeth, ei hamcanion strategol a'i pholisiau strategol sy'n cynnwys crefydd/cred neu ystyriaethau cymdeithasol eraill.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	L		Bydd y Strategaeth yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell. Mae'r Strategaeth yn ceisio integreiddio cynlluniau a strategaethau eraill a hyrwyddo hygyrchedd i wasanaethau.	
Cyfeiriadedd Rhywiol	L		Bydd y Strategaeth yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell.	
Rhyw	L		Bydd y Strategaeth yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell.	

	<p>Yr Iaith Gymraeg</p>	<p>H</p>	<p>Mae'r Strategaeth yn methu â gwneud darpariaethau digonol i hyrwyddo a diogelu buddiannau o ran yr Iaith Gymraeg ac agweddau ar sensitifrwydd ieithyddol</p>	<p>Mae'r Gymraeg yn cael sylw penodol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Mae'r ddau'n darparu cymorth priodol ynghylch sut i ystyried yr iaith Gymraeg wrth lunio CDLI.</p> <p>Drwy ei hamcanion strategol a PS7 bydd y Strategaeth yn darparu ar gyfer cefnogi cynigion sy'n diogelu a hyrwyddo'r iaith.</p> <p>Rhaid i'r Cyngor hefyd gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.</p>	
	<p>Unrhyw faes arall</p>				

<p>5. A oes unrhyw ymgynghori/cysylltu wedi digwydd o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol ?</p>	<p>OES <input checked="" type="checkbox"/> NAC OES <input type="checkbox"/></p>
---	--

<p>6. Pa gam/gamau a gymerir i leihau'r effaith negyddol anghymesur, os bydd rhai?</p> <p>Bydd y posibilrwydd o unrhyw effaith anghymesur yn cael ei fonitro trwy gydol y broses o lunio'r Cynllun. Yn hyn o beth bydd y Cynllun yn destun ailgyflwyno parhaus hyd nes y caiff ei fabwysiadu a bydd hefyd yn amodol ar lunio Arfarniad Cynaliadwyedd a fydd hefyd yn ystyried ei effeithiau</p>
--

amgylcheddol a chymdeithasol ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â hynny.		
7. Caffael		
Ar ôl coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau caffael i'r gweithgaredd, y cynnig neu'r gwasanaeth.		
Ddim yn berthnasol		
Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor pellach.		
8. Adnoddau Dynol		
Ar ôl coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau Adnoddau Dynol i'r gweithgaredd, y cynnig neu'r gwasanaeth?		
Ddim yn berthnasol		
9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6 a oes angen cynnal asesiad manwl o effaith y swyddogaeth/polisi/gweithdrefn/arfer neu benderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un elfen uchel wedi'i nodi yn adran 2)	OES x (nodyn i'w gwblhau ar ôl i'r Strategaeth a Ffefrir gael ei llunio)	NAC OES <input type="checkbox"/>
Cymeradwywyd gan:	Dyddiad:	
Pennaeth y Gwasanaeth	L. Quelch, Pennaeth Cynllunio	Rhagfyr 2018